



Ein cyf/Our ref P-06-1247

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd Pwyllgor Deisebau

6 Mawrth 2023

Anwyl Cadeirydd,

**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deisebau - O Bump i Bedwar? P-06-1247 Cefnogi treialon wythnos 4 diwrnod yng Nghymru**

Diolch i chi am adroddiad y Pwyllgor Deisebau ynghylch wythnos waith 4 diwrnod, a gyhoeddwyd ar 24 Ionawr.

Nodaf y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor ac argymhellion y mwyafrif ar y Pwyllgor. Dim ond un model o weithio hyblyg yw wythnos waith 4 diwrnod a'n huchelgais yw bod cyflogwyr yn edrych ar weithio'n hyblyg yn ei holl agweddau ac yn darparu swyddi sy'n rhoi mwy o ddewis o ran ble a phryd mae pobl yn gweithio. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i hyrwyddo'r uchelgais hon.

Fel y dywed adroddiad y Pwyllgor, mae angen ystyried ystod o ffactorau wrth ddatblygu a chyflwyno unrhyw beilot i dreialu wythnos waith 4 diwrnod. Mae'n bwysig i ni wrth lunio'n barn ein bod yn cael clywed llais ein partneriaid cymdeithasol. Dyna pam yr ydym wedi gofyn a chael cytundeb Cyd-bwyllgor Gwaith [Cyngor Partneriaeth y Gweithlu](#) i sefydlu gweithgor i ystyried yr wythnos waith 4 diwrnod.

Bydd y cynnig ar gyfer sefydlu'r gweithgor yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar 29 Mawrth. Os rhoddir sêl bendith i'r cynnig, rydym yn rhagweld y caiff adroddiad ar ganfyddiadau'r gweithgor ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.

Rwy'n awyddus nad oes penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch cefnogi peilot cyn bod ein partneriaid cymdeithasol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r mater. Mae'r awydd hwn i ystyried y materion hyn mewn partneriaeth gymdeithasol i'w weld yn ein hymateb i bob un o argymhellion y Pwyllgor Deisebau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400


Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading "Hannah Blythyn". The signature is written in a cursive style with a small mark at the end.

**Hannah Blythyn AS/MS**  
Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol  
Deputy Minister for Social Partnership